

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Adroddiad ar y Mesur Seneddol ynghylch
Rheoli Llifogydd a Dŵr

Chwefror 2010



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

I gael rhagor o gopiâu caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8154
Ffacs: 029 2089 8021
Ebost: Legislation.Committee@wales.gsi.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Adroddiad ar y Mesur Seneddol ynghylch
Rheoli Llifogydd a Dŵr

Chwefror 2010



Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Rhaid i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried y materion a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2 a chyflwyno adroddiadau ar unrhyw un ohonynt, a chaiff ystyried y materion a nodir yn Rheolau Sefydlog 15.3 ac 15.6 a chyflwyno adroddiadau ar y rheini.

Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ym mis Mehefin 2007 (fel y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth). Mae ei bwerau wedi'u nodi yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn Rheol Sefydlog 15 yn benodol. Mae'r rhain i'w gweld yn www.cynulliadcymru.org

Aelodau'r Pwyllgor

<i>Aelod Pwyllgor</i>	<i>Plaid</i>	<i>Etholaeth neu Ranbarth</i>
Janet Ryder	Plaid Cymru	Gogledd Cymru
Alun Davies	Llafur	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mike German	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Dwyrain De Cymru
William Graham	Y Ceidwadwyr Cymreig	Dwyrain De Cymru
Rhodri Morgan	Llafur	Gorllewin Caerdydd

Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor.....	4
Ystyriaethau'r Pwyllgor a'r cefndir	5
Y Rheolau Sefydlog	5
Ystyried y Mesur Seneddol	5
Y cefndir	5
Y Mesur Seneddol ynghylch Rheoli Llifogydd a Dŵr	6
Rhan 1: Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol	6
Rhan 2: Amrywiol	10
Rhan 3: Cyffredinol.....	20
Crynodeb o'r darpariaethau mewn perthynas â Chymru.....	21
Materion yn deillio o'r dystiolaeth.....	21
Cwmpas y Mesur Seneddol a chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad	21
Pam oedd angen y Mesur Seneddol.....	21
Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.....	23
Pa mor briodol yw darpariaethau sy'n rhoi pwerau i wneud is- deddfwriaeth i Weinidogion Cymru	24
Crynodeb	24
Materion penodol	25
<i>Cymal 8</i>	25
<i>Y gweithdrefnau ar gyfer apelio</i>	26
Tystion.....	30
Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....	31

Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd â'r argymhellion:

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ei strategaeth genedlaethol ddrafft ar gyfer rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol cyn ei gosod gerbron y Cynulliad, a dylid neilltuo digon o amser i bwyllgorau craffu'r Cynulliad ystyried y strategaeth yn fanwl. (Tudalen 25)

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylid neilltuo amser yn y Cyfarfod Llawn i drafod y strategaeth genedlaethol derfynol ar gyfer rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol, a hynny cyn gynted â phosibl ar ôl i'r strategaeth gael ei gosod gerbron y Cynulliad gan Weinidogion Cymru. (Tudalen 26)

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru annog Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddiwygio'r Mesur Seneddol er mwyn sicrhau bod y prosesau apelio wedi'u cynnwys yn y Mesur Seneddol ei hun neu bod unrhyw weithdrefnau i'w gwneud drwy benderfyniad cadarnhaol fan lleiaf. (Tudalen 28)

Argymhelliad 4. Wrth iddi wneud unrhyw reoliadau o dan y pwerau arfaethedig yn y Mesur Seneddol sy'n ymwneud â dulliau apelio, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y memoranda cyd-ddealltwriaeth sy'n cyd-fynd ag unrhyw reoliadau yn tynnu sylw at bryderon y Pwyllgor yn y meysydd hyn. (Tudalen 29)

Ystyriaethau'r Pwyllgor a'r cefndir

Y Rheolau Sefydlog

1. O dan Reolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol, caiff y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried y materion a ganlyn a chyflwyno adroddiadau arnynt:

- Rheol Sefydlog 15.6 (ii) - "pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig ac mewn Mesurau ar gyfer Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol".
- Rheol Sefydlog 15.6 (v) - "unrhyw fater deddfwriaethol gyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru."

2. Diben yr adroddiad hwn yw helpu dau Dŷ'r Senedd i ystyried y Mesur Seneddol a helpu Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeall rhai o oblygiadau'r Mesur Seneddol.

Ystyried y Mesur Seneddol

3. Ystyriodd y Pwyllgor y Mesur Seneddol ynghylch Rheoli Llifogydd a Dŵr ar 21 Ionawr 2010, a chafwyd tystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

Y cefndir

4. Cyflwynwyd y Mesur Seneddol ynghylch Rheoli Llifogydd a Dŵr yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Tachwedd 2009.

5. Mae'r Mesur Seneddol yn datblygu rhai o'r cynigion a geir mewn tair dogfen strategol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU - *Future Water*¹, *Making Space for Water*², ac ymateb Llywodraeth y DU i

¹ Future water: the Government's water strategy for England, Chwefror 2008

adolygiad Syr Michael Pitt o'r llifogydd yn haf 2007³. Mae'r Mesur Seneddol hefyd yn rhoi effaith i dair o ddogfennau Llywodraeth Cymru: y Strategaeth Amgylcheddol ar Gyfer Cymru, y Rhaglen Dulliau Newydd a'r Datganiad Sefyllfa ar y Polisi Strategol ar Ddŵr.

6. At hynny, mae'r Mesur Seneddol yn datblygu rhannau o'r Mesur Seneddol drafft ynghylch Rheoli Llifogydd a Dŵr, yn dilyn y gwaith craffu cyn deddfu a wnaed arno gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

7. Mae'r Mesur Seneddol yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Mae cymal 46 (3) yn darparu mai gan Weinidogion Cymru y mae'r pŵer i gychwyn y ddeddfwriaeth yng Nghymru, yn unol â'u cyfrifoldebau (ond ni fydd y cyfrifoldebau hyn o anghenraid yn dilyn ffiniau daearyddol).

8. Mae tair rhan i'r Mesur Seneddol ynghylch Rheoli Llifogydd a Dŵr, ac mae'r paragraffau isod yn manylu ar y pwerau a ddirprwyir i Weinidogion i wneud is-ddeddfwriaeth.

Y Mesur Seneddol ynghylch Rheoli Llifogydd a Dŵr

Rhan 1: Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol

9. Mae'r rhan hon yn rhoi rôl strategol gyffredinol i Asiantaeth yr Amgylchedd dros reoli risg llifogydd ac erydu arfordirol yn Lloegr, a rôl debyg yng Nghymru i Weinidogion Cymru. Mae hefyd yn rhoi cyfrifoldeb i awdurdodau lleol Cymru dros baratoi a chyflwyno strategaethau yn eu hardal i reoli risg llifogydd o ddŵr daear, dŵr wyneb a chysiau dŵr arferol.

10. Rhoddir i Asiantaeth yr Amgylchedd, awdurdodau lleol a chyrrff eraill ddyletswyddau a phwerau sy'n gysylltiedig â'r cyfrifoldebau hyn, drwy ddiwygio Deddf Adnoddau Dŵr 1991, Deddf Draenio Tir 1991 a Deddf Diogelu'r Arfordir 1949, ac yn uniongyrchol drwy'r Ddeddf hon.

² Making space for water: Taking forward a new government strategy for flood and coastal erosion risk management in England, Mawrth 2005

³ Ymateb y Llywodraeth i adolygiad Syr Michael Pitt o'r llifogydd yn haf 2007

11. Mae'r rhan hon yn diwygio Deddf Diogelu'r Arfordir 1949 er mwyn rhoi pwerau i Asiantaeth yr Amgylchedd mewn perthynas â rheoli risg erydu arfordirol, yn ychwanegol at eu pwerau presennol mewn perthynas â llifogydd arfordirol.

12. Mae'r rhan hon yn cael gwared ar bwerau'r Pwyllgorau Rhanbarthol Amddiffyn Rhag Llifogydd i wneud penderfyniadau, ac yn ymestyn eu cylch gwaith i gynnwys erydu arfordirol.

13. Mae'r rhan hon hefyd yn rhoi pwerau cyfreithiol ychwanegol i awdurdodau penodol yng Nghymru a Lloegr i ddynodi'n ffurfiol asedau neu nodweddion sy'n effeithio ar risg lifogydd neu risg erydu arfordirol. Mae'n cynyddu'r lefel o reolaeth reoleiddiol dros y nifer sylweddol o asedau neu nodweddion sy'n rhan o systemau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol, ond nad ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw gan y rheini sy'n gyfrifol yn ffurfiol am reoli'r risg.

14. **Cymal 4** – Mae'r cymal hwn yn diffinio beth yw swyddogaeth rheoli risg llifogydd [“flood risk management function”]. Mae'n cynnwys swyddogaethau penodedig mewn Deddfau penodedig yn ogystal â swyddogaethau o dan Ran 1 o'r Mesur Seneddol. Drwy ddiffinio swyddogaeth yn swyddogaeth rheoli risg llifogydd, bydd honno'n rhan o gwmpas darpariaethau penodol yn y Mesur Seneddol sy'n ei gwneud yn ofynnol llunio swyddogaethau o'r fath mewn ffyrdd penodedig ymlaen llaw. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, bennu swyddogaethau ychwanegol a fydd yn rhan o'r diffiniad o swyddogaeth rheoli risg llifogydd – **y weithdrefn negyddol**.

15. **Cymal 5** – Mae'r cymal hwn yn diffinio beth yw swyddogaeth rheoli risg erydu arfordirol [“coastal erosion risk management function”]. Mae'n cynnwys swyddogaeth o dan Ddeddf Diogelu'r Arfordir 1949 yn ogystal â swyddogaethau o dan Ran 1 o'r Mesur Seneddol. Yr un yw effaith y diffiniad hwn ag effaith y diffiniad yng nghymal 4. Gall Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, bennu swyddogaethau ychwanegol a fydd yn rhan o'r diffiniad o swyddogaeth rheoli risg erydu arfordirol – **y weithdrefn negyddol**.

16. **Cymal 8** – Mae'r Cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddatblygu, cynnal a chymhwyso strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. **Nid yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru fonitro'r strategaeth fel y mae'n ofynnol i Asiantaeth yr Amgylchedd wneud hynny yn Lloegr.** Mae

isadran (2) yn rhestru'r materion y dylid eu cynnwys yn y strategaeth fan lleiaf. Yr un yw'r materion hyn â'r rheini sy'n rhaid eu cynnwys yn strategaeth genedlaethol Lloegr ar gyfer rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr ynghylch materion sy'n cael effaith ar Loegr. Mae gofyn i Asiantaeth yr Amgylchedd ymgynghori â Gweinidogion Cymru pan allai rhywbeth effeithio ar eu tir hwy, a rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo'r strategaeth derfynol. Mae isadrannau (5) a (6) yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau, yn benodol mewn perthynas â'r dyletswyddau i gydweithredu, ac mae'r isadrannau hyn hefyd yn cynnwys pŵer i lunio trefniadau a gofyn am wybodaeth. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi crynodeb o'r strategaeth. Mae gofyn i Weinidogion Cymru osod y strategaeth gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru (is-adran (7)).

17. **Cymal 10** – Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r prif awdurdodau llifogydd yng Nghymru (cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) ddatblygu, cynnal, cymhwyso a monitro strategaethau ar gyfer rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol lleol yn eu hardaloedd. Diffinnir risg llifogydd lleol yn is-adran (2) yn yr un modd ag y gwneir ar gyfer Lloegr. Rhoddir manylion yr hyn sy'n rhaid ei gynnwys fan lleiaf yn y strategaeth yn is-adran (4), sydd eto yr un peth â Lloegr. Mae gofyn i'r prif awdurdod llifogydd lleol gyhoeddi crynodeb o'r strategaeth, a chaiff gyhoeddi canllawiau ar gyfer rhoi'r strategaeth honno ar waith yn ei ardal. **Mae'n rhaid cyflwyno'r strategaethau a'r canllawiau i Weinidogion Cymru. Ar ôl bwrw golwg arnynt, caiff y Gweinidogion eu cymeradwyo, eu gwrthod neu eu haddasu. Nid dyna'r drefn yn Lloegr, er bod yn rhaid i'r prif awdurdod llifogydd lleol ystyried unrhyw ganllawiau a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ynghylch strategaethau neu ganllawiau.**

18. **Cymal 12** – Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau rheoli risg yng Nghymru, ac eithrio'r cwmnïau dŵr, weithredu mewn modd sy'n gyson â'r strategaethau a'r canllawiau cenedlaethol a lleol (cymalau 8 a 10) pan fyddant yn cyflawni eu swyddogaethau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol. Mae gofyn i'r awdurdodau hyn ystyried y strategaethau wrth gyflawni unrhyw swyddogaeth arall a allai effeithio ar risg llifogydd neu erydu arfordirol yng Nghymru. Mae is-adran (4) yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ei gwneud yn ofynnol i berson penodedig ystyried y

strategaethau a'r canllawiau wrth gyflawni swyddogaeth statudol, fel y'i diffinnir yn is-adran (3), a allai effeithio ar risg llifogydd neu erydu arfordirol yng Nghymru - **y weithdrefn negyddol.**

19. **Cymal 15** – Mae'r cymal hwn yn creu sancsiwn (nad yw'n sancsiwn troseddol) er mwyn annog cyrff i gydymffurfio â chymal 14. Mae is-adran (7) yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhoi'r hawl i apelio. Mae is-adran (9) yn darparu ymhellach y caiff Gweinidogion Cymru gyfnewid uchafswm y gosb, sef £1000.00 ar hyn o bryd, am swm arall - **y weithdrefn negyddol.**

20. **Cymal 18** – Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Asiantaeth yr Amgylchedd roi adroddiadau am reoli risg llifogydd ac erydu arfordirol i Weinidogion Cymru. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu pa bryd neu pa mor rheolaidd y dylid cyhoeddi'r adroddiadau a pha wybodaeth y dylid ei chynnwys ynddynt - **y weithdrefn negyddol.**

21. **Cymal 21** – Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r prif awdurdodau llifogydd lleol sefydlu a chadw cofrestr o adeileddau neu nodweddion a allai effeithio'n sylweddol ar risg llifogydd yn eu hardal, ynghyd â chofnodi gwybodaeth am adeileddau a nodweddion o'r fath. Gall hyn gynnwys gwybodaeth am bwy sy'n berchen arnynt a'u cyflwr. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cynnwys y gofrestr a'r cofnod, yn ogystal â disgrifio'r wybodaeth sydd i'w heithrio rhag cael ei chynnwys (is-adrannau (2) a (4)) – **y weithdrefn negyddol.**

22. **Cymal 22** – Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Asiantaeth yr Amgylchedd sefydlu Pwyllgorau Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir. Er mwyn gwneud hynny, rhaid iddi rannu Cymru a Lloegr yn rhanbarthau. Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd y pŵer i addasu'r ffiniau hyn yn unol â'r weithdrefn a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau. Mae is-adran (2) yn darparu y rhoddir y pŵer i Weinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau y weithdrefn sydd i'w dilyn gan Asiantaeth yr Amgylchedd wrth wneud yr uchod, a gall hynny gynnwys darpariaethau mewn perthynas ag ymgynghori ac apelio – **y weithdrefn negyddol.**

23. **Cymal 24** – Mae'r cymal hwn yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn er mwyn pennu'r gofynion ar gyfer aelodaeth y Pwyllgorau Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir. Gall y gorchymyn

ddarparu ar gyfer pennu nifer yr aelodau ar Bwyllgor, pwy sy'n gymwys, sut y penodir yr aelodau, a gweithdrefnau'r Pwyllgor. Gall hefyd nodi'r cworwm a faint o fwyafrif y mae ei angen ar gyfer gwneud gwahanol benderfyniadau – **y weithdrefn negyddol.**

24. **Cymal 29** – Mae'r cymal hwn yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio, drwy orchymyn, y Mesur Seneddol hwn neu unrhyw ddeddfiad arall i ailbennu cyfrifoldebau'r prif awdurdodau llifogydd lleol, cynghorau rhanbarth a byrddau draenio mewnol mewn perthynas â risg llifogydd neu risg erydu arfordirol. Mae is-adran (2) yn dynodi mathau penodol o ddiwygiadau y gellir eu gwneud drwy ddefnyddio'r pŵer hwn, ond nid yw'n rhagnodi nac yn cyfyngu ar y diwygiadau hyn. Mae is-adran (4) yn pennu bod yn rhaid i'r Gweinidog ymgynghori â'r awdurdodau y byddai unrhyw newidiadau yn effeithio arnynt – **y weithdrefn gadarnhaol.**

25. **Cymal 30** – Mae'r cymal hwn yn cyflwyno Atodlen 1 i'r Mesur Seneddol sy'n caniatáu i awdurdodau (Asiantaeth yr Amgylchedd, cynghorau lleol a byrddau draenio mewnol) ddynodi adeileddau neu nodweddion penodol sy'n effeithio ar risg llifogydd neu erydu arfordirol. Unwaith y bydd y rheini wedi'u dynodi, ni chaiff person addasu, symud nac amnewid y nodwedd heb ganiatâd yr awdurdod. Mae paragraff 15 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n cyflwyno hawl i apelio. Mae paragraff 16 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau (drwy offeryn statudol) ynghylch cyflwyno hysbysiadau. Nodir y ffurf a'r weithdrefn ar gyfer gwneud ceisiadau o dan yr Atodlen hon – **y weithdrefn negyddol.**

Rhan 2: Amrywiol

26. Mae'r Rhan hon yn cynnwys cymalau am ddraenio cynaliadwy, cronfeydd dŵr, gweinyddu arbennig, darparu seilwaith, gwaharddiadau dros dro, sancsiynau sifil, datblygu cynaliadwy, llifogydd neu erydu arfordirol damweiniol, gorchmynion gwaith gorfodol, cytundebau ynghylch systemau draenio newydd, costau draenio dŵr wyneb rhatach i grwpiau cymunedol, a diddymu'r Pwyllgor Pysgodfeydd (yr Alban).

27. Mae **Cymal 32** yn cyflwyno Atodlen 3: draenio cynaliadwy

28. Mae *paragraff 6* yn pennu pwy a fydd yn gweithredu fel Corff Cymeradwyo ["Approving Body"] ar gyfer systemau draenio mewn

ardal. Yn y lle cyntaf, y Corff Cymeradwyo fydd cyngor sir yr ardal. Mae is-baragraffau (3) a (5) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru benodi corff arall i fod yn gorff cymeradwyo mewn ardal benodedig yn hytrach na'r cyngor. Rhaid gwneud hyn drwy orchymyn a fydd yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**. Wrth benodi corff gwahanol yn gorff cymeradwyo mewn ardal benodol, gall y gorchymyn hefyd roi pwerau ychwanegol i'r corff hwnnw a fydd yn ei gynorthwyo i weithredu fel Corff Cymeradwyo. Dim ond y pwerau mynediad sydd gan y cyngor unedol neu'r cyngor sir eisoes y gellir eu rhoi. Os bydd pwerau ychwanegol i'w rhoi i'r Corff Cymeradwyo, bydd y gorchymyn yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn gadarnhaol**.

29. Mae *paragraff 7* yn darparu bod angen y gymeradwyaeth honno gan y Corff Cymeradwyo cyn y gellir dechrau unrhyw waith adeiladu a fydd yn effeithio ar ddraeniau. Mae'r paragraff hwn yn diffinio gwaith adeiladu fel unrhyw beth sy'n cael ei wneud drwy greu adeilad, mewn perthynas â hynny neu er mwyn paratoi at hynny, gan gynnwys creu unrhyw adeiledd sy'n gorchuddio tir (fel patio). Bydd gwaith adeiladu yn effeithio ar ddraeniau os bydd yr adeilad neu'r adeiledd yn effeithio ar allu'r tir i amsugno dŵr glaw. Mae is-baragraff (4) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiffinio'r hyn a gaiff ei drin fel gwaith adeiladu, neu'r hyn a fydd yn effeithio ar ddraeniau, ac felly yn caniatáu iddynt bennu'r hyn y mae angen ei gymeradwyo. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu eithriadau i'r gofyniad am gymeradwyaeth. Gellir arfer y pŵer hwn drwy orchymyn a fydd yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**.

30. Mae *paragraff 13* yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu ffioedd ar gyfer gwneud cais am gymeradwyaeth mewn perthynas â draeniau. Mae'r darpariaethau'n caniatáu i'r rheoliadau nodi ffioedd sy'n dibynnu ar feini prawf a bennir yn y rheoliadau – er enghraifft, maint neu natur y gwaith adeiladu. Yn y rheoliadau hefyd, gellir pennu ffioedd sy'n ystyried cost y gwaith a wnaed gan yr awdurdod i brosesu'r cais am gymeradwyaeth. Wrth wneud y rheoliadau, rhaid i'r Gweinidog geisio sicrhau nad yw'r incwm o ffioedd yn llawer uwch na'r costau a dynnwyd wrth brosesu cais am gymeradwyaeth – y **weithdrefn negyddol**.

31. Mae *paragraff 14* yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn i gyflwyno darpariaeth ynghylch gorfodi'r gofyniad am gymeradwyaeth o dan yr Atodlen hon. Gellir defnyddio'r gorchymyn i wneud darpariaeth ar gyfer cymryd camau gorfodi mewn

achosion lle bydd gwaith adeiladu'n dechrau heb i'r system ddraenio gael ei chymeradwyo ymlaen llaw, lle bydd unrhyw rai o'r amodau y seiliwyd y gymeradwyaeth arnynt wedi'u torri, neu lle na fydd y gwaith o adeiladu'r system ddraenio'n dilyn y cynigion a gymeradwywyd. Gall y gorchymyn gynnwys darpariaethau ynghylch hysbysiadau gan gynnwys hysbysiadau gorfodi, hysbysiadau atal, hysbysiadau dros dro a hysbysiadau torri amodau; caniatáu i geisiadau gael eu gwneud i lys neu dribiwnlys; rhoi pwerau gan gynnwys pwerau disgrisiwn i Weinidogion Cymru neu awdurdodau eraill, pwerau mynediad, pwerau archwilio a phwerau i gyflawni a chodi am waith adfer; a darpariaethau ynghylch goblygiadau methu â chydymffurfio â'r gorchymyn ei hun neu hysbysiadau a roddir oddi tano. Os bydd Gweinidogion Cymru yn dymuno hynny, gall y gorchymyn gymhwyso neu wneud darpariaethau tebyg i'r ddarpariaeth yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Bydd y gorchymyn o dan y paragraff hwn yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn gadarnhaol**.

32. Mae *paragraff 17* yn darparu nad oes dyletswydd ar y Corff Cymeradwyo i fabwysiadu unrhyw system ddraenio, na rhan o system ddraenio, sy'n darparu ar gyfer eiddo unigol yn unig. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiffinio pryd y bydd system ddraenio neu ran o system ddraenio yn darparu ar gyfer eiddo unigol – **y weithdrefn negyddol**.

33. Mae *paragraff 19* yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno rhagor o eithriadau i'r ddyletswydd i fabwysiadu system ddraenio. Rhaid arfer y pŵer hwn drwy orchymyn, a fydd yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**.

34. Mae *paragraff 20* yn galluogi'r Corff Cymeradwyo i fabwysiadu system ddraenio gynaliadwy yn wirfoddol, hyd yn oed os nad oes dyletswydd arno i wneud hynny. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau yn diffinio'r mathau o systemau draenio cynaliadwy y gellir eu mabwysiadu'n wirfoddol – **y weithdrefn negyddol**.

35. Mae *paragraff 22* yn rhoi manylion y broses ar gyfer mabwysiadu'r system ddraenio pan fydd dyletswydd ar y Corff Cymeradwyo i wneud hynny. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch pryd a sut y dylid cydymffurfio â'r rhwymedigaethau o dan y paragraff hwn, yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**.

36. Mae *paragraff 23* yn nodi'r hyn fydd yn digwydd pan na fydd y ddyletswydd i fabwysiadu yn gymwys i system ddraenio, ond pan fydd y Corff Cymeradwyo yn penderfynu mabwysiadu'r system serch hynny. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch pryd a sut y dylid hysbysu, cofrestru a dynodi. Bydd unrhyw reoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**.

37. Mae *paragraff 24* yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn darparu bod hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau ynghylch ceisiadau am gymeradwyaeth (gan gynnwys penderfyniadau ynghylch amodau) a phenderfyniadau ynghylch y ddyletswydd i fabwysiadu. Rhaid i'r rheoliadau hyn bennu'r awdurdodaeth ar gyfer unrhyw apel a gwneud darpariaethau ar gyfer gweithdrefnau ac amgylchiadau'r apel – **y weithdrefn negyddol**.

38. Mae **cymal 33** yn cyflwyno *Atodlen 4: Cronfeydd Dŵr*.

39. Mae *paragraff 2* yn diwygio'r diffiniad o gyforgronfa ddŵr fawr ["large raised reservoir"] at ddibenion Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 yng Nghymru a Lloegr. Diffinnir y termau "raised" a "large" yn is-adrannau (2) a (3) o adran newydd A1. Dywedir bod adeiledd neu ardal sy'n gyforgronfa ["raised"] yn fawr ["large"] os yw'n gallu storio 10,000 metr ciwbig o ddŵr uwchben lefel naturiol unrhyw ran o'r tir sy'n ei amgylchynu. Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r cyfaint hwn drwy wneud gorchymyn o dan is-adran (7) o adran newydd A1. Mae is-adran (4) o adran newydd A1 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn pennu'n fanylach sut y cyfrifir cynhwysedd cyforgronfa ddŵr fawr at ddibenion Deddf Cronfeydd Dŵr 1975. Mae is-adran (5) o adran newydd A1 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer trin adeileddau sydd wedi'u dylunio neu sy'n cael eu defnyddio i gasglu a storio dŵr, neu ar gyfer trin ardaloedd sy'n gallu storio dŵr ac a gafodd eu creu neu eu hehangu drwy ddulliau artiffisial, fel rhai mawr ["large"] ar sail pa mor agos yw'r rheini at adeiledd neu ardal arall o'r fath, neu os oes cysylltiad gwirioneddol neu bosibl â'r adeiledd neu'r ardal honno. Mae is-adran (6) o adran newydd A1 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru geisio sicrhau, wrth wneud y rheoliadau hyn, y caiff adeileddau neu ardaloedd o'r fath eu trin fel rhai mawr ["large"] dim ond os gellid rhyddhau 10,000 metr ciwbig neu fwy o ddŵr yn sgil pa mor agos ydynt neu'r cysylltiad rhyngddynt. Mae is-adran (8) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn darparu na ddylid trin mannau penodedig fel cyforgronfeydd dŵr mawr at ddibenion Deddf

1975. Mae gorchmynion a wneir o dan is-adran (7) a rheoliadau a wneir o dan is-adran (8) o adran newydd A1 yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn gadarnhaol**. Mae rheoliadau a wneir o dan is-adrannau (4) a (5) yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**.

40. Mae *paragraff 4* yn ychwanegu darpariaethau ar ôl adran 2 (2A) o Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. Mae adran 2 (2) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cofrestru, y wybodaeth sydd i'w chofrestru ac erbyn pryd y dylid cofrestru'r wybodaeth honno neu newidiadau iddi. Mae rheoliadau a wneir o dan adran newydd 2 (2) (c) yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**.

41. Mae *paragraffau 7 ac 8* yn ychwanegu adrannau newydd 2A i 2E ar ôl adran 2 o Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975 ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol. Mae adran newydd 2C yn pennu'r meini prawf y gall Asiantaeth yr Amgylchedd eu defnyddio i benderfynu bod cyforgronfa ddŵr fawr yn un ag iddi risg uchel. O dan is-adran (1) o adran newydd 2C, gall yr Asiantaeth benderfynu bod cyforgronfa ddŵr fawr yn un ag iddi risg uchel os yw'r Asiantaeth yn credu y gallai bywyd dynol fod mewn perygl pe bai dŵr yn cael ei ryddhau heb reolaeth o'r gyforgronfa, oni bai bod honno'n bodloni amodau a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn gadarnhaol**. Mae adran newydd 2E yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhoi hawl i apelio pan wneir dynodiad o dan adran newydd 2B a'r gweithdrefnau cysylltiedig. O dan is-adran (3) o adran newydd 2E, caiff dynodiad ei atal dros dro wrth aros am ganlyniad yr apêl - y **weithdrefn negyddol**.

42. Mae *paragraffau 10 ac 11* yn diwygio adran 6 o Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975 sy'n ymdrin ag adeiladu neu ehangu cyforgronfeydd dŵr mawr. Mae is-adran newydd 6B yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, amnewid y cyfaint a bennir yn is-adran 6A am gyfaint gwahanol yn unol â'r newidiadau a wnaed i'r cynhwysedd a bennwyd yn adran newydd A1 (3). Mae gorchymyn a wneir o dan is-adran newydd (6B) yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn gadarnhaol**.

43. Mae *paragraff 12* yn diwygio adran 10 o Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. Mae is-baragraff (3) yn diwygio adran 10 (2) o Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975 er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch pryd y dylid archwilio cronfa sydd â risg uchel. Mae

rheoliadau a wneir o dan adran 10 (2) fel y'i diwygiwyd yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn gadarnhaol**.

44. Mae *paragraffau 27 i 28* yn diwygio adran 14 o Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. Mae paragraff 27(3) yn ychwanegu adran 14 (6), sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch pryd y dylid a phryd na ddylid ystyried bod cronfa wedi mynd yn segur, ac ynghylch dechrau ailddeddfyddio cyfgronfa at ddibenion y Ddeddf. Mae rheoliadau a wneir o dan adran newydd 14 (6) yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**.

45. Mae *paragraff 30* yn ychwanegu adran 19A at Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. Mae adran 19A yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion wneud rheoliadau i ddarparu hawl i apelio yn erbyn gofynion yr hysbysiadau gorfodi hyn. Rhaid i'r rheoliadau ddiffinio gan ba berson neu gorff y mae'r awdurdodaeth, yn ogystal â phennu'r materion gweithdrefnol - y **weithdrefn negyddol**.

46. Mae *paragraff 32* yn ychwanegu adran 20A ar ôl adran 20 o Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. Bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer asesu ansawdd adroddiadau a datganiadau ysgrifenedig a gaiff eu paratoi drwy archwilio a goruchwyllo peiranyddion. Gall y rheoliadau bennu'r meini prawf a'r gweithdrefnau ar gyfer asesu ac maent yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**.

47. Mae *paragraff 33* yn ychwanegu adrannau 21A a 21B ar ôl adran 21 o Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. Mae'r adran newydd 21B (adroddiadau) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i berson penodedig gyflwyno adroddiad i Asiantaeth yr Amgylchedd am unrhyw ddigwyddiad o fath penodedig sydd wedi effeithio neu a allai effeithio ar ddiogelwch cyfgronfa ddŵr fawr. Mae rheoliadau a wneir o dan adran 21 (b) uchod yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**.

48. Mae *paragraff 37* yn ychwanegu adran 22D at Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. Mae hyn yn galluogi ymatebwyr Categori 1 o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 i godi ffioedd ar ymgwymerwyr yn unol â chynllun a ragnodir drwy rheoliadau gan Weinidogion Cymru. Bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgwymerwr fod yn gyfrifol am y cyfan neu ran o'r costau o

gynllunio ar gyfer argyfwng sy'n deillio o ryddhau dŵr heb reolaeth o gyforgronfa ddŵr fawr – **y weithdrefn negyddol.**

49. Mae *paragraff 40 (1)* yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw ddiwygiadau eraill i Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975 os yw hynny'n ymddangos yn angenrheidiol neu'n ddymunol yn sgil diwygiadau a wnaed gan Atodlen 4. Mae gorchymyn a wneir o dan is-baragraff 1 yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn gadarnhaol.**

50. Mae **cymal 34** yn cyflwyno *Atodlen 5*: Gweinyddu Arbennig

51. Mae *paragraff 3* yn diwygio Atodlen 2 i Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 er mwyn newid rôl y gweinyddwr arbennig pan na fydd y cwmni dŵr yn gallu talu ei ddyledion neu pan fydd yn debygol na fydd yn gallu gwneud hynny. Mae adran newydd 23 (2E) i (2G) yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol er mwyn addasu'r darpariaethau a amlinellir yn is-adran (2D) neu i roi darpariaethau eraill ar waith mewn perthynas ag ansolfedd neu gwmnïau er mwyn addasu'r rheoliadau i fodloni dibenion y system gweinyddu arbennig. Yn benodol, gall y rheoliadau roi swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol, i Weinidogion Cymru neu i'r Awdurdod. **Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru er mwyn gwneud rheoliadau a bydd y rheoliadau hynny'n ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad cadarnhaol dau dŵr Senedd.**

52. Mae *paragraff 4* yn diwygio adrannau 153 a 154 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 sy'n cynnwys darpariaethau ynghylch cael cymorth ariannol gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru pan fydd gorchymyn gweinyddu arbennig wedi'i wneud. Arferai is-adran (6) ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru osod manylion unrhyw warantau a wnaed mewn perthynas â gorchymyn gweinyddu arbennig ar unwaith ["immediately"] gerbron y Senedd neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru (yn ôl y galw). Bellach, mae'n ofynnol gwneud hynny cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ["as soon as reasonably practicable"]. Mewn ffordd debyg, mae is-adran (7) yn newid y gofyniad am ddatganiad ynghylch unrhyw symiau a dalwyd gan Weinidogion Cymru wrth gyflawni gwarant mewn perthynas â gorchymyn gweinyddu arbennig. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu **y gallai fod oedi wrth osod rhai dogfennau tan y bydd y Cynulliad yn cyfarfod, ac ni fyddant yn cael eu gosod yn ystod y toriad neu dros benwythnos.**

53. Mae *paragraff 5* yn ychwanegu is-adran newydd at adran 23 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Pan edrychir ar y diben trosglwyddo, caiff y gweinyddwr arbennig ddefnyddio gweithdrefn “hive down” neu drosglwyddo’r cyfan neu ran o fusnes y cwmni i is-gwmni sy’n eiddo’n gyfan gwbl iddo, cyn trosglwyddo’r busnes a’r gwarannau i un neu ragor o berchnogion newydd. Mae is-baragraffau (2) a (3) yn darparu bod modd i’r Ysgrifennydd Gwladol, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, wneud gorchymyn yn diwygio Atodlen 2 i Ddeddf y Diwydiant Dŵr er mwyn i’r defnydd o gynlluniau trosglwyddo fod yn berthnasol i drosglwyddiadau sy’n defnyddio gweithdrefn “hive down”. Mae’r gorchymyn yn ddarostyngedig i’r **weithdrefn gadarnhaol**.

54. Mae *paragraff 6* yn disodli adran 23 (3) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 ac Atodlen 3 iddo. Mae’n darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, wneud rheoliadau i gymhwyso, datgymhwyso neu addasu Atodlen B1, darpariaethau eraill yn Neddf Ansofedd 1985 a darnau eraill perthnasol o ddeddfwriaeth ansolfedd sy’n ymwneud â gweinyddu arbennig.

55. Mae **cymal 35** yn ychwanegu *rhan newydd 2A at Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991*.

56. Mae *adran newydd 36A* yn y Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau i reoleiddio’r modd y darperir seilwaith gan drydydd partïon, a fydd i’w ddefnyddio yn y pen draw gan ymgymerywyr dŵr neu ymgymerywyr carthffosiaeth. Yn benodol, gall y rheoliadau wneud y canlynol:

- rhoi swyddogaethau rheoleiddio i’r Awdurdod (Ofwat) i’w alluogi i reoleiddio’r modd y darperir seilwaith;
- cymhwyso’r un darpariaethau neu ddarpariaethau tebyg i’r rheini a geir yn Rhan 2 o’r Ddeddf gyda neu heb eu haddasu. Mae’r darpariaethau hyn yn cynnwys materion fel penodi ymgymerywyr dŵr a charthffosiaeth, gorchymynion gorfodi, gorchymynion gweinyddu arbennig a gwaharddiadau ar achosion dirwyn i ben ac ansolfedd gwirfoddol.

Mae’r adran newydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i’r rheoliadau bennu’r gweithgareddau y byddant yn gymwys iddynt. Gall hynny gynnwys dylunio, adeiladu, gweithredu a bod yn berchen ar y seilwaith

sydd i'w ddefnyddio gan yr ymgwymerwyr. Mae'n caniatáu iddynt ddiffinio beth yw seilwaith ["infrastructure"] hefyd.

57. Mae *adran newydd 36B* yn y Ddeddf yn darparu y gall y rheoliadau o dan adran 36A ganiatáu i Weinidogion Cymru neu'r Awdurdod (os yw'r rôl wedi'i dirprwyo iddo gan Weinidogion Cymru) bennu un neu ragor o brosiectau seilwaith sy'n rhaid tendro amdanynt. Mae'r rheoliadau hefyd yn gwahardd ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth rhag cyflawni prosiectau seilwaith os ydynt wedi'u dynodi fel math o brosiectau sy'n gofyn am broses dendr gystadleuol. Fodd bynnag, gall y rheoliadau ganiatáu neu ei gwneud yn ofynnol i ymgwymerwyr gyflawni gwaith paratoadol penodol yn gysylltiedig â phrosiect seilwaith a rhaid iddynt gynnwys darpariaethau'n amlinellu pa rai o gwmnïau cysylltiol yr ymgwymerwyr (er enghraifft, rhiant-gwmnïau neu chwaer-gwmnïau) a gaiff fod yn rhan o'r broses dendro. At hynny, rhaid i'r rheoliadau bennu'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn mewn proses dendro. Gall y darpariaethau hyn bennu'r ffactorau y mae'n rhaid i'r ymgwymerwyr eu hystyried wrth ymdrin â cheisiadau, a rhaid iddynt alluogi'r ymgwymerwr i benderfynu pa gais i'w dderbyn.

58. Mae *adran newydd 36C* yn y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau bennu'r meini prawf sydd i'w defnyddio wrth benderfynu a oes yn rhaid cael proses dendro gystadleuol ar gyfer prosiect seilwaith. Gall y rheoliadau hyn hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn arfer ei bwerau dirprwyedig o dan adran newydd 36B, yn ogystal â'i gwneud yn ofynnol iddo gyhoeddi canllawiau ynghylch sut y bydd yn penderfynu pa brosiectau seilwaith fydd yn gofyn am broses dendro.

59. Mae *adran newydd 36D* yn darparu y gall y rheoliadau alluogi'r Awdurdod i ddynodi ymgeisydd llwyddiannus fel darparwr seilwaith ["infrastructure provider"]. Gall y rheoliadau wneud y canlynol:

- rhoi pwerau a dyletswyddau llawn neu gyfyngedig sy'n gyson â'r rheini yn y Ddeddf, neu'n debyg iddynt, i ddarparwyr seilwaith, yr Awdurdod, y Gweinidogion a chyrrff cyhoeddus eraill (er enghraifft, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed neu Asiantaeth yr Amgylchedd);
- rhyddhau ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth o ddyletswyddau penodol mewn perthynas â'r prosiect seilwaith

- amrywio, dirymu neu ddarparu amodau ar gyfer penodi mewn perthynas â'r dynodiad a chyflwyno darpariaethau gorfodi.

60. Mae *adran newydd 36G* yn darparu bod rheoliadau a wneir o dan *adran newydd 36A* i'w gwneud drwy'r **weithdrefn gadarnhaol**.

61. Mae **cymal 36** yn *disodli adran 76 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991* gyda phŵer tebyg sy'n caniatáu i gwmnïau dŵr wahardd neu gyfyngu dros dro ar ddefnydd penodol o ddŵr a ddarperir gan yr ymgwymerwr hwnnw.

62. Mae *adran newydd 76(3)* yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu mathau eraill o ddefnydd dŵr at y rhestr yn adran 76(2), gan ehangu pwerau'r ymgwymerwyr dŵr yn sgil hynny. O dan adran 76(3), dim ond diben annomestig y caiff ymgwymerwr dŵr ei ychwanegu at y rhestr – hynny yw, diben nad yw'n rhan o'r diffiniad o ddibenion domestig mewn perthynas â chyflenwi dŵr yn ôl adran 218 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Rhaid gwneud hyn drwy orchymyn a fydd yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn gadarnhaol**.

63. Mae *adran newydd 76A(2) a (3)* yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddarparu eithriadau ar gyfer unrhyw rai o'r defnyddiau a restrir. Felly, er enghraifft, gallai'r Llywodraeth ei gwneud yn ofynnol i'r ymgwymerwyr dŵr ddarparu eithriad ar sail iechyd a diogelwch. Mae'r adran hon hefyd yn caniatáu diffinio, drwy orchymyn, rai o'r termau a ddefnyddir a darparu eglurhad pellach ynghylch y mathau o ddefnydd dŵr y gellir eu gwahardd. Mae gorchymynion o dan adran 76 A (2) yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol** ac mae gorchymynion o dan adran 76 (3) yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn gadarnhaol**.

64. Mae **cymal 38** yn caniatáu i Asiantaeth yr Amgylchedd gyflawni gwaith, o dan amodau penodol, a allai neu a fydd yn achosi llifogydd, cynnydd yn y dŵr o dan y tir neu erydu arfordirol. Mae is-adran (8) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn sy'n cymhwyso i'r adran hon ddarpariaethau Deddf Adnoddau Dŵr 1991 mewn perthynas â phrynu gorfodol, pwerau mynediad ac iawndal. Mae is-adran (9) yn ei gwneud yn ofynnol y dylid gwneud y gorchymyn drwy'r **weithdrefn gadarnhaol**.

65. Mae **cymal 39** yn caniatáu i'r prif awdurdodau llifogydd lleol neu'r byrddau draenio mewnol gyflawni gwaith, o dan amodau penodol, a allai neu a fydd yn achosi llifogydd, cynnydd yn y dŵr o dan y tir neu

erydu arfordirol. Mae is-adran (12) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn sy'n cymhwyso i'r adran hon ddarpariaethau Deddf Adnoddau Dŵr 1991 mewn perthynas â phrynu gorfodol, pwerau mynediad ac iawndal. Mae is-adran (13) yn ei gwneud yn ofynnol y dylid gwneud gorchymyn o'r fath drwy **weithdrefn gadarnhaol**.

66. Mae **cymal 41** yn ychwanegu adran newydd at Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Mae'n cadarnhau, o dan adran 106 o'r Ddeddf honno, fod gan berchnogion lleoliadau neu garthffosydd hawl i gysylltu â'r garthffos gyhoeddus. Er mwyn bodloni'r amod ynghylch mabwysiadu, mae is-adran (1) yn darparu bod yn rhaid i'r cytundeb mabwysiadu ei gwneud yn ofynnol i hynny ddigwydd yn awtomatig ar ôl digwyddiadau penodol, a rhaid i'r broses gydymffurfio â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Bydd y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd wneud rheoliadau sy'n pennu rhagor o eithriadau mewn perthynas â'r cyfyngiad newydd hwn. Bydd y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn negyddol**.

Rhan 3: Cyffredinol

67. Mae'r rhan hon yn cynnwys darpariaethau atodol amrywiol sy'n gymwys i'r Mesur Seneddol yn gyffredinol.

68. **Cymal 44** - Un o argymhellion adolygiad Pitt oedd cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â rheoli llifogydd a dŵr. Diben y cymal hwn yw caniatáu i'r gwaith cydgrynhoi hwnnw fynd rhagddo. Mae'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddiwygio'r Mesur Seneddol unwaith y daw'n Ddeddf, ynghyd â Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, Deddf Adnoddau Dŵr 1991, Deddf Draenio Dŵr 1991, Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, Deddf Priffyrdd 1981, Deddf yr Amgylchedd 1995 a Deddf Diogelu'r Arfordir 1949. Er mwyn gwneud y diwygiadau hyn, rhaid iddynt safoni darpariaethau, symleiddio gweithdrefnau neu gywiro camgymeriadau. Mae'r diwygiadau i'w gwneud drwy orchymyn, yn ddarostyngedig i'r **weithdrefn gadarnhaol**. **Ni ellir gwneud unrhyw orchymyn heb gydsyniad Gweinidogion Cymru.**

69. Mae **cymal 46 (6)** yn cadarnhau nad yw diwygiad a wneir drwy'r Mesur Seneddol hwn neu Ddeddf arall yn rhwystro'r broses barhaol o drosglwyddo swyddogaethau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

neu 2006. Mae'r is-adran hon yn gymwys boed y diwygiad yn diwygio swyddogaeth sydd eisoes wedi'i datganoli neu'n rhoi swyddogaeth newydd. Dylid trin swyddogaethau newydd sy'n disodli neu sy'n debyg i swyddogaethau sydd eisoes wedi'u datganoli yn yr un modd â'r hen swyddogaethau. Bydd darpariaethau a wnaed gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 neu 2006 mewn perthynas â swyddogaethau a ddiwygiwyd neu a ddisodlwyd gan y Ddeddf hon yn dal yn gymwys i'r ddarpariaeth ddiwygiedig neu'r ddarpariaeth newydd.

Crynodeb o'r darpariaethau mewn perthynas â Chymru

70. Ac eithrio rhai darpariaethau yng nghymal 34, sy'n ymwneud ag ansolfedd (maes sydd heb ei ddatganoli), mae'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru yn cyfateb i'r rheini a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol/Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr. Ym mhob achos, mae'r weithdrefn arfaethedig yn y Cynulliad yn cyfateb i'r weithdrefn arfaethedig yn y Senedd ar gyfer rheoliadau sy'n berthnasol i Loegr. Fodd bynnag, fel y dywedwyd yma eisoes, mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i fonitro'r strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru, tra mai dyletswydd Asiantaeth yr Amgylchedd yw hynny yn Lloegr.

71. Yr unig fater arall i'w nodi yw'r pŵer mewn perthynas â chymal 44. Byddai'r pŵer hwn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddiwygio'r Mesur Seneddol hwn a darnau eraill o ddeddfwriaeth ar gyfer Cymru yn ogystal â Lloegr. Yn yr un modd â chymal 34, byddai angen cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud unrhyw orchymyn.

Materion yn deillio o'r dystiolaeth

Cwmpas y Mesur Seneddol a chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad

Pam oedd angen y Mesur Seneddol

72. Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol bod y Pwyllgor Dethol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn Nhŷ'r Cyffredin wedi gwneud gwaith craffu cyn deddfu ar y Mesur Seneddol drafft, ac wedi cyhoeddi ei adroddiad ar 29 Medi 2009. Gan ystyried y prinder amser a oedd ar gael yn y Senedd, argymhellodd y Pwyllgor Dethol y dylai'r Llywodraeth ohirio cyflwyno'r Mesur Seneddol tan y Senedd nesaf:

“The Department’s pick and mix approach over what ultimately might be in the Bill means that the process of pre-legislative scrutiny is inevitably undermined. We recommend that if the Government proceed to develop a truly comprehensive piece of water legislation that the Committee be given a further opportunity to scrutinise those parts of the Bill which are still very much work in progress.”

“With the Queen’s speech now scheduled for 18 November, a comprehensive flood and water management Bill is unlikely to be enacted before the next general election, due to the lack of Parliamentary time. Despite many flood and water issues being inter-related and requiring coordinated action, Defra may have no alternative but to consider introducing a slimmed-down bill that covers the most important issues. If Defra pursues a slimmed – down bill it will lose this once in a Parliament opportunity to comprehensively and thoroughly address current water and flooding issues. We recommend the Government adhere to Sir Michael Pitt’s recommendation for a proper consolidating Bill.”⁴

73. Wrth ymateb i gwestiynau’r Pwyllgor, eglurodd y Gweinidog:

“There was no opportunity for anything more than a slimmed-down Bill, and we have worked closely with the UK Government to ensure that the Bill currently before the House can address the structural problems with the existing legislation. I am hopeful that a proper consolidating Bill will come forward in due course, and I hope that we will see it post the general election.”⁵

74. Wrth ymateb i ragor o gwestiynau, cadarnhaodd y Gweinidog mai bwriad Llywodraeth y DU yw cyflwyno Mesur Seneddol arall yn cydgrynhoi’r ddarpariaeth wreiddiol ar ôl yr etholiad cyffredinol:

“If my party remains in Government, there will certainly be a consolidating Bill. However, I hope that there would be a consolidating Bill regardless, because we need to make sure

⁴ Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *The Draft Flood and Water Management Bill*, 16 Medi 2009

⁵ Cofnod y Trafodion – y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, 21 Ionawr 2010 – paragraff 159

that all these issues are bottomed out and that the legislation comes forward as Sir Michael Pitt proposed.”⁶

75. Cytunwn â’r Pwyllgor Dethol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig y byddai’n dda pe bai modd cyflwyno Mesur Seneddol arall i gydgrynhoi’r ddarpariaeth, ond derbyniwn y bydd y realiti gwleidyddol yn gwneud hyn yn anodd.

Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol

76. Esboniodd y Gweinidog hefyd pam nad yw’r Mesur Seneddol yn rhoi unrhyw gymhwysedd deddfwriaethol i’r Cynulliad Cenedlaethol, a pham mai dim ond cymhwysedd gweithredol i Weinidogion y mae’n ei roi:

“Although we always seek to obtain legislative competence from every primary legislative opportunity as a matter of standard policy, the way forward is made on a case-by-case basis with the UK Government. For this Bill, because it is a slimmed-down Bill and because it is moving forward on a specific number of areas, obtaining executive powers directly for the Welsh Ministers will enable us to take immediate action on those responsibilities. As I have done in the Proposed National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Environment) Order, I have sought legislative competence alongside the areas of executive responsibility to Ministers. However, if further opportunities arise following a consolidating Bill, for example, I hope that we could seek legislative competence. However, this Bill does not provide that.”⁷

77. Wrth ymateb i ragor o gwestiynau, dywedodd y Gweinidog:

“... As I said in my introduction—and I think that it is important for Members to take this fully into account—there are such major flaws in the existing legislation, particularly relating to flooding, that it was critical to have the executive competence to put the appropriate arrangements in place, following the

⁶ Cofnod y Trafodion – y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, 21 Ionawr 2010 – paragraff 161

⁷ Cofnod y Trafodion – y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, 21 Ionawr 2010 – paragraff 166

floods in 2007 and the identification of those legislative issues.”⁸

78. Rydym yn siomedig, ar yr achlysur hwn, nad yw'r Mesur Seneddol yn cynnwys darpariaethau a fyddai'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol allu penderfynu pa bwerau y dylid eu rhoi i Weinidogion Cymru yn y meysydd sy'n cael sylw yn y Mesur Seneddol. Fodd bynnag, rydym yn derbyn bod angen sicrhau bod cymhwysedd gweithredol digon cadarn ar gael i ymdrin â materion fel llifogydd.

79. Mae'n dda gweld bod y Gweinidog wedi pwysleisio mai polisi arferol Llywodraeth Cymru yw ceisio cymhwysedd ym Mesurau Seneddol San Steffan ac edrychwn ymlaen at weld rhagor o enghreifftiau o hyn pan gyflwynir Mesurau Seneddol eraill.

80. Nodwn y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gallu deddfu yn y meysydd sy'n cael sylw yn y Mesur Seneddol os bydd Rhan 4 (Atodlen 7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn cael ei chyflwyno ar ôl refferendwm.

Pa mor briodol yw darpariaethau sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru

Crynodeb

81. Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru ar y cyfan yn cyfateb i'r rheini a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr. Ym mhob achos, mae'r weithdrefn arfaethedig yn y Cynulliad yn cyfateb i'r weithdrefn seneddol arfaethedig ar gyfer rheoliadau sy'n berthnasol i Loegr.

82. Mae'n wir y byddai'n well gennym weld cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn yn cael ei ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol, gan y byddai hynny'n galluogi'r Cynulliad i benderfynu ar hyd a lled pwerau Gweinidogion Cymru. Serch hynny, ar cyfan, rydym yn fodlon â'r cydbwysedd rhwng y pwerau yn y Mesur Seneddol ei hun a'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru. Yn gyffredinol, rydym hefyd yn fodlon â'r gweithdrefnau arfaethedig (cadarnhaol neu negyddol) ym mhob achos.

⁸ Cofnod y Trafodion – y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, 21 Ionawr 2010 – paragraff 174

83. Fodd bynnag, mae gennym rywfaint o bryderon, ac mae'r rhain i'w gweld yn y paragraffau a ganlyn.

Materion penodol

Cymal 8

84. Mae cymal 8 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddatblygu, cynnal a chymhwyso strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru fonitro'r strategaeth fel y mae'n ofynnol i Asiantaeth yr Amgylchedd wneud hynny yn Lloegr, er bod gofyn iddynt osod y strategaeth gerbron y Cynulliad Cenedlaethol (Cymal 8(7)). (Yn ei thystiolaeth lafar, cadarnhaodd y Gweinidog bod y gofyniad i osod y strategaeth hefyd yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau i'r strategaeth honno.⁹)

85. Croesawn y ffaith y bydd angen gosod y strategaeth ac unrhyw ddiwygiadau iddi gerbron y Cynulliad. Fodd bynnag, gellir dadlau mai'r cymal hwn yw hanfod y rhan hon o'r Mesur Seneddol. Mae'r Mesur Seneddol wedi'i gwtogi'n sylweddol er mwyn gallu'i gyflwyno cyn etholiad cyffredinol y Deyrnas Unedig, a phrin iawn fu'r cyfle i bwyllgorau'r Cynulliad graffu ar y Mesur Seneddol mewn unrhyw fanylder.

86. Gan ystyried pa mor bwysig yw'r strategaeth, a diffyg unrhyw wir gyfle i graffu, credwn fod achos cryf dros gael dadl yn y Cyfarfod Llawn unwaith y bydd y strategaeth wedi cael ei gosod am y tro cyntaf. Fel sail i unrhyw ddadl, dylid rhoi digon o gyfle i'r pwyllgor craffu perthnasol graffu ar y strategaeth ymlaen llaw. Os oes modd, dylid gallu craffu ar strategaeth ymgynghorol neu strategaeth ddrafft, fel bod cyfle i'r Cynulliad ddylanwadu ar ei chynnwys cyn iddi gael ei chyflwyno'n derfynol.

Argymhelliad 1 - Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ei strategaeth genedlaethol ddrafft ar gyfer rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol cyn ei gosod gerbron y Cynulliad, a dylid neilltuo digon o amser i bwyllgorau craffu'r Cynulliad ystyried y strategaeth yn fanwl.

⁹ Cofnod y Trafodion – y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, 21 Ionawr 2010 – paragraff 194

Argymhelliad 2 - Rydym yn argymell y dylid neilltuo amser yn y Cyfarfod Llawn i drafod y strategaeth genedlaethol derfynol ar gyfer rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol, a hynny cyn gynted â phosibl ar ôl i'r strategaeth gael ei gosod gerbron y Cynulliad gan Weinidogion Cymru.

Y gweithdrefnau ar gyfer apelio

87. Mae nifer o ddarpariaethau yn y Mesur Seneddol yn cyflwyno darpariaethau a fydd yn galluogi Gweinidogion i wneud rheoliadau sy'n rhoi'r hawl i apelio, ac mae'r rhain i gyd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

- Cymal 15 (8)
- Atodlen 1 - Paragraff 15
- Atodlen 3 - Paragraff 24
- Atodlen 4 - Paragraff 7

88. Nododd y Pwyllgor fod y Pwyllgor Dethol wedi galw'n benodol am gynnwys proses apelio mewn perthynas â pharagraff 15 o Atodlen 1, sy'n caniatáu i awdurdodau lleol ac eraill ddynodi adeileddau neu nodweddion penodol sy'n effeithio ar risg llifogydd neu erydu arfordirol. Unwaith iddynt gael eu dynodi, ni ellir addasu, symud nac amnewid y nodwedd heb ganiatâd yr awdurdod.

89. Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth y DU:

“The Bill provides for the appeals mechanism to be defined in secondary legislation because the arrangements for the appeals process are essentially administrative and process-orientated and as such are unlikely to be controversial. The Department does not want to prescribe such procedural detail on the face of the Bill itself it considers the appeals mechanism to be an integral part of the decision making process, particulars of which may also be prescribed by secondary legislation. By making use of regulations, we will have the opportunity to reflect changing circumstances, especially if any particulars of the notices were to be changed, with a minimum of bureaucracy and without recourse to primary legislation. **We do, however, intend for the secondary legislation to be**

made under the affirmative resolution procedure.” [Our emphasis]¹⁰

90. Wrth ymateb i gwestiynau, amddiffynnodd y Gweinidog y ffaith nad oedd gweithdrefnau manwl ar gyfer apelio wedi’u cynnwys yn y Mesur Seneddol ei hun a’u bod yn ddarostyngedig i’r weithdrefn negyddol ym mhob achos.

“In a sense, it is the same issue again, because paragraph 15 provides that Welsh Minister may make regulations providing for the right of appeal. The issue is that there is a right of appeal—we must comply with our human rights obligations in that sense. I have been reassured by our legal advisers sitting at the table that in all of those appeal mechanisms, which will be developed subsequent to the passing of the legislation, we would be mindful of our human rights obligations. So, the issue is not whether or not there is a right of appeal, but how the right of appeal is executed. That is why the proposition is for it to operate under the negative procedure.”¹¹

91. Holodd y Pwyllgor y Gweinidog hefyd pam ei bod yn ymddangos nad oedd unrhyw weithdrefnau wedi’u cynnwys gyfer apelio mewn perthynas â chymalau 38 a 39. Byddai cymal 39 yn caniatáu i Asiantaeth yr Amgylchedd wneud amrywiaeth eang o waith a allai achosi llifogydd ac erydu arfordirol pe bai nifer o amodau’n cael eu bodloni. Wrth arfer y pwerau hyn, rhaid i’r Asiantaeth roi ystyriaeth [“must have regard to”] i’r strategaethau cenedlaethol a lleol ar gyfer rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol ac unrhyw ganllawiau ynghylch y rhain. Rhoddir pŵer tebyg i awdurdodau lleol neu fyrddau draenio mewnol o dan gymal 39.

92. O dan gymalau 38(8) a 39(12), byddai gofyn i Weinidogion Cymru wneud Gorchymyn yn cymhwyso i’r adrannau hynny y darpariaethau yn Neddf Adnoddau Dŵr 1991 sy’n ymwneud â phrynu gorfodol, pwerau mynediad a iawndal. Fodd bynnag, nid oedd yn ymddangos bod unrhyw ddull clir o apelio ar gael. Dywedodd un o swyddogion y Gweinidog:

¹⁰ Taking Forward the draft Flood and Water Management Bill: ymateb y Llywodraeth i’r gwaith craffu cyn deddfu a’r ymgynghroiad cyheoddus, CM7741, Tachwedd 2009
¹¹ Cofnod y Trafodion – y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, 21 Ionawr 2010 – paragraff 208

Ms James: In the time available, we are unable to take you through exactly how this provision would work, but essentially the provisions in relation to compulsory purchase, powers of entry and compensation, which are already in the Water Resources Act 1991, and which also build on the powers in the Compulsory Purchase Act 2004 and the Acquisition of Land Act 1981, will help to ensure that landowners and occupiers of land are treated fairly. There are all sorts of processes in there, and in the event that an Order would be made under this provision, we would ensure that the European Convention on Human Rights is fully complied with.”¹²

93. Esboniodd y Gweinidog:

“The matters that the regulations may prescribe are limited to setting out who the appeal authority is and the procedure to be followed. The details of the regulations are not important to the extent that they cannot affect the fundamental right of people to pursue an appeal. The regulation-making power makes it clear that a right of appeal must be available at all times. So that is why we are where we are with that process, but as I say, in the context of further discussions to enshrine that right of appeal, we may end up with a different resolution.”¹³

94. Rydym yn pryderu ei bod yn ymddangos bod materion sy'n ymwneud â hawliau dynol yn gysylltiedig â hyn. Serch hynny, nid oes unrhyw ddulliau clir i bobl apelio ac mae'r defnydd o'r weithdrefn negyddol yn golygu bod gallu'r Cynulliad Cenedlaethol i graffu ar y materion hyn yn fwy cyfyngedig nag y dylai fod. Nid ydym yn argyhoeddedig bod manylion y rheoliadau apelio yn ddibwys, er ein bod yn derbyn y gallai deddfwriaeth hawliau dynol roi rhwyd ddiogelwch o ryw fath.

95. Yn sgil ein pryderon:

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru annog Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddiwygio'r Mesur Seneddol er mwyn sicrhau bod y prosesau apelio wedi'u cynnwys yn y Mesur

¹² Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, 21 Ionawr 2010 - paragraff 225

¹³ Cofnod y Trafodion - y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, 21 Ionawr 2010 - paragraff 228

Seneddol ei hun neu bod unrhyw weithdrefnau i'w gwneud drwy benderfyniad cadarnhaol fan lleiaf.

96. Rydym hefyd yn bwriadu edrych yn ofalus maes o law ar unrhyw reoliadau ar gyfer apelio a wneir o dan y pwerau arfaethedig yn y Mesur Seneddol, gyda'r bwriad o ystyried eu rhinweddau o dan Reol Sefydlog 15.3.

Argymhelliad 4 - Wrth iddi wneud unrhyw reoliadau o dan y pwerau arfaethedig yn y Mesur Seneddol sy'n ymwneud â dulliau apelio, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y memoranda cyd-ddealltwriaeth sy'n cyd-fynd ag unrhyw reoliadau yn tynnu sylw at bryderon y Pwyllgor yn y meysydd hyn.

Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar 21 Ionawr 2010. Gellir gweld trawsgrifiad llawn o'r sesiwn yn www.cynulliadcymru.org

21 Ionawr 2010

Jane Davidson AC	Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, Llywodraeth Cymru
Peter Jones	Pennaeth Rheoli Llifogydd ac Erydu Arfordirol, yr Is-adran Newid yn yr Hinsawdd a Dŵr, Llywodraeth Cymru
Nicola Thomas	Pennaeth Polisi Dŵr, yr Is-adran Newid yn yr Hinsawdd a Dŵr, Llywodraeth Cymru
Nia James	Yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru
Neil Yates	Yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru

Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Cafodd y Pwyllgor y dystiolaeth ysgrifenedig a ganlyn. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn www.cynulliadcymru.org

<i>Dogfen</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Y Mesur Seneddol Drafft ynghylch Rheoli Llifogydd a Dŵr	SLC(3)-30-09(p1)
Nodiadau Esboniadol	SLC(3)-30-09(p2)
Adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol	SLC(3)-30-09(p3)
Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai	SLC(3)-30-09(p4)
Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog a'i hymateb	SLC(3)-02-10(p7)a(8)
Gwahoddiad gan y Cadeirydd i'r Gweinidog roi dystiolaeth	SLC(3)-02-10(p9)
Memorandwm gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig	SLC(3)-02-10(p10)